

Yn y byd rhyng-gysylltiedig sydd ohoni, mae'r gallu i siarad ieithoedd niferus a chyfathrebu ar draws rhaniadau ieithyddol yn sgil hanfodol. Mae hyd yn oed gwybodaeth rannol o fwy nag un iaith yn fuddiol. Mae hyfedredd mewn ieithoedd ychwanegol yn fath newydd o lythrennedd byd-eang. Mae angen ehangu dysgu ieithoedd i bawb - hen ac ifanc.

Fodd bynnag caiff yr hawl cynhenid i gynnal, mwynhau a datblygu ieithoedd eu hunaniaeth a'u cymuned ei wadu i filiynau o bobl ar draws y byd. Mae angen unioni'r anghyfiawnder hwn mewn polisïau iaith sy'n cefnogi cymdeithasau ac unigolion amlieithog.

Rydym ni, cyfranogwyr sesiwn Seminar Byd-eang Salzburg ar *Sbarduno Talent: Dysgu ac Integreiddio Iaith mewn Byd lle ceir Globaleiddio* (Rhagfyr 12-17, 2017 [salzburgglobal.org/go/586](https://salzburgglobal.org/go/586)), yn galw am bolisïau sy'n rhoi gwerth ac sy'n cynnal amlieithrwydd a hawliau iaith.

Cefnogir Datganiad Salzburg ar Fyd Amlieithog gydag adroddiad cynhwysfawr a blogiau ar bynciau allweddol a gyhoeddir yn ystod 2018.

## Datganiad Salzburg ar Fyd Amlieithog

### RYDYM NI'N BYW MEWN BYD LLE

- mae pob un o 193 o aelod-wladwriaethau'r CU a'r rhan fwyaf o bobl yn amlieithog.
- caiff 7,097 o ieithoedd eu siarad drwy'r byd.
- mae 2,464\* o'r rhain dan fygythiad.
- mae 23 o ieithoedd yn tra-arglwyddiaethu, gyda thros hanner poblogaeth y byd yn eu siarad.
- nid yw 40% o bobl yn gallu manteisio ar addysg mewn iaith maent yn ei deall.
- nid yw 617 miliwn o blant a phobl ifanc yn cyflawni hyfedredd sylfaenol o ran darllen.
- mae 244 miliwn o bobl yn fudwyr rhyngwladol, gyda 20 miliwn o'r rhain yn ffoaduriaid, cynnydd o 41% ers 2000. Byddai'r nifer o fudwyr a ffoaduriaid ar eu pen eu hunain gyfystyr â'r bumed wlad fwyaf poblog drwy'r byd.

Mae ein byd yn wirioneddol amlieithog ond mae llawer o systemau addysg ac economaidd, prosesau dinasyddiaeth a gweinyddiaethau cyhoeddus yn gosod miliynau o bobl dan anfantais oherwydd eu hieithoedd a'u galluoedd iaith. Rhaid i ni fynd i'r afael â'r her hon os ydym am gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, a fabwysiadwyd yn 2015 gan 193 o wledydd i "ddileu tlodi, amddiffyn y blaned a sicrhau ffyniant i bawb". Mae system addysg gyfiawn sydd wedi'i hadeiladu ar bolisïau iaith cryf a theg yn sylfaenol ar gyfer cyflawni cynnydd cynhwysol.

### EGWYDDORION

- Mae amlieithrwydd yn golygu addysgu ieithoedd yn benodol ynghyd â phatrymau anffurfiol o gyfathrebu sy'n ymddangos mewn cymdeithasau amlieithog.
- Lluosieithrwydd yw gwybodaeth unigolion o ieithoedd niferus.
- Mae amgylchiadau hanesyddol, daearyddol ac economaidd gymdeithasol yn arwain at lawer o wahanol ffurfiau a defnydd o amlieithrwydd.
- Mae addysg amlieithog, a chefnogaeth gwladwriaethau a chyrrff rhyngwladol i amlieithrwydd cymdeithasol yn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth a dealltwriaeth ryngddiwylliannol ac yn cryfhau cysylltiadau rhyngwladol.

Gall polisïau iaith sydd wedi'u targedu gyfoethogi cydlynid cymdeithasol, gwella canlyniadau addysgol a hyrwyddo datblygu economaidd. Mae dulliau dysgu iaith adioli yn galluogi plant i feithrin sgiliau llythrennedd cryf yn eu mamieithoedd; helpu cymunedau i gadw ieithoedd eu hunaniaeth, gwybodaeth a chred; a chreu cyfleoedd i ddysgu ieithoedd newydd sydd o fudd personol, hamdden, diwylliannol neu economaidd. Gall polisïau amlieithog gynnal adnodd unigryw a hanfodol amrywiaeth iaith a sbarduno newid cadarnhaol yn y byd yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol.

Anogwn unigolion, corfforaethau, sefydliadau a llywodraethau i fabwysiadu meddylfryd amlieithog sy'n dathlu ac yn hyrwyddo amrywiaeth iaith fel norm byd-eang, sy'n ymdrin â gwahaniaethu ar sail iaith, ac yn datblygu polisïau iaith sy'n hybu amlieithrwydd.

## ARGYMHELLION

### Llunio Polisi

Mae angen cyfraniadau gan arbenigwyr a chyfranogiad rhanddeiliaid cymunedol er mwyn sicrhau polisi iaith llwyddiannus. Mae gwneud penderfyniadau rhesymegol a chlir am ieithoedd mewn cymdeithas yn golygu:

- Trafod nodau clir sy'n realistig ac yn gyraeddadwy.
- Cynnwys yr holl rhanddeiliaid yn y broses polisi, gyda rhan flaenllaw i athrawon ar bob cam.
- Creu dilyniant polisi o'r cyfnod cyn-ysgol i'r cyfnod ôl-ysgol ac addysg nad yw'n ffurfiol a gydol oes.
- Canolbwyntio ar yr holl asedau ac anghenion iaith, gan gynnwys cynnal, dysgu a defnydd o famieithoedd cymunedau lleiafrifol.
- Defnyddio canfyddiadau o ymchwil addysgol a gwybyddol ar gyfer dysgu mamiaith ac ieithoedd eraill.
- Manteisio ar botensial technolegau cyfathrebu.
- Sicrhau adnoddau digonol ar gyfer gweithredu polisi'n llawn.
- Monitro a gwerthuso nodau a gweithrediad polisi yn rheolaidd.

### Addysgu a Dysgu

Mae cwmpas cyflawn polisi iaith yn gymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn ogystal ag addysgol. Mae dysgu ieithoedd gydol oes yn hanfodol i gymdeithasau gynnal ac elwa ar amlieithrwydd. Dylai polisiau addysg, sgiliau a llafur hybu a chydabod dysgu iaith i bawb, ochr yn ochr â gwerthfawrogiad cadarnhaol o amrywiaeth iaith. Dylai plant ac oedolion allu manteisio ar gyfleoedd integredig a pharhaus i ddatblygu, cyfoethogi ac ehangu eu galluoedd iaith drwy gydol eu bywydau.

Mae angen patrwm newydd o addysg sy'n cynnwys systemau traddodiadol ac amgen o wybodaeth ac sy'n defnyddio technolegau modern. Mae safleoedd ar gyfer dysgu iaith yn weithredol yn mynd ymhell y tu hwnt i ysgolion a sefydliadau addysg uwch. Gall strydoedd, cartrefi, rhwydweithiau cymdeithasol, amgylcheddau digidol a lleoliadau cymorth ffoaduriaid oll hybu dysgu a gwerthfawrogi ieithoedd.

### Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan hanfodol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a chyfnewid gwybodaeth mewn cymdeithasau amlieithog. Mae cyfranogiad cyfartal mewn amgylcheddau iechyd, addysg, economaidd a'r gyfraith yn dibynnu ar gyfryngu iaith proffesiynol sydd ar gael yn hawdd.

## GALWAD I WEITHREDU

Ymhlith y rhanddeiliaid a all sbarduno newid mae ymchwilwyr ac athrawon; gweithwyr cymunedol, y gymdeithas sifil a chyrrff anllywodraethol; lleisiau diwylliannol a'r cyfryngau; llywodraethau a swyddogion cyhoeddus; buddiannau busnes a masnachol; asiantau cymorth a datblygu; a sefydliadau ac ymddiriedolaethau. **Rydym yn galw ar bob un o'r rhain i helpu gyda'r canlynol:**

- Datblygu polisiau, arferion a thechnolegau iaith sy'n cefnogi cymdeithasau dynamig a chydlynol gydag agweddau cadarnhaol at amlieithrwydd a lluosieithrwydd.
- Cynnig cefnogaeth weithredol i hawliau iaith, amrywiaeth a dinasyddiaeth mewn dogfennau swyddogol a negeseuon i'r cyhoedd.
- Mynd i'r afael â phob enghraifft o wahaniaethu, rhagfarn, tuedd ac anghydraddoldeb yn gysylltiedig ag iaith a llythrennedd.
- Cydnabod bod lleiafrifoedd, mudwyr a ffoaduriaid yn meddu ar gyfalaf ieithyddol uchel sydd o werth mawr i'n byd nawr ac yn y dyfodol.

Yn eu ffyrdd unigryw eu hunain, gall pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid hyn goffeidio a chefnogi amlieithrwydd er mwyn sicrhau cynnydd cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a dinasyddiaeth gyfranogol. Gyda'n gilydd gallwn weithredu i ddiogelu trysorfa ddiwylliannol a gwybodaeth amlieithrwydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

\* Gweler y cyfeiriadau ystadegol yma: [education.salzburgglobal.org/statements](https://education.salzburgglobal.org/statements)